Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Sylfaen

Gweithgaredd 8:
Gallwn ni ei wneud e

Amcan dysgu
Datblygu gwaith tîm drwy wneud cynnyrch.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Cysylltiadau
- Cyfathrebu
- Gweithio gyda Phobl Eraill

Trefniadaeth
- Rheoli Adnoddau

Gweithgareddau dysgu
Trafodwch "Sut ydyn ni'n mynd i'w wneud e?"

Cyflwynwch gysyniadau adnoddau a chynhyrchion.

Esboniwch bwysigrwydd gweithio gyda'i gilydd a gwerth pob unigolyn o fewn y tîm.

Mewn grwpiau, cytunwch a dynodwch dasgau a gweithfannau i unigolion neu grwpiau, gan bwysleisio eu rôl yn y tîm. Bydd hyn yn dibynnu ar y cynnyrch sy'n cael ei ddewis ond fe allai gynnwys trefniant llinell gynhyrchion e.e. torri, cydosod, pecynnu.

Casglwch a threfnwch yr adnoddau mae eu hangen i wneud y cynnyrch.

Mae disgyblion yn cydweithredu i wneud y cynnyrch, tacluso a storio'r cynnyrch.

Mae'r disgyblion yn trafod beth maen nhw'n hoffi gwneud orau a sut fydden nhw'n rhannu'r tasgau yn wahanol y tro nesaf.

Gweithgaredd 8:
Gallwn ni ei wneud e

Cyfnod Sylfaen

Canlyniad dysgu
Bydd disgyblion wedi cael profiad o weithio mewn grwpiau bach i gwblhau tasg.

Adnoddau mae eu hangen
- Deunyddiau (yn dibynnu ar y cynnyrch)

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant

Datblygiad Creadigol
- Gwneud dewisiadau wrth ddethol deunyddiau ac adnoddau.
- Dylunio a gwneud cynhyrchion syml.

2. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm
- Cydweithredu a thrafod.

Rhifedd – Defnyddio sgiliau rhif
Rheoli arian e.e.
- Penderfynu beth all gael ei brynu o fewn cyllideb benodedig.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government